# *CANOLFAN BYW'N ANNIBYNNOL DE GWYNEDD*
# *CENTRE FOR INDEPENDENT LIVING*

UNEDAU B2*B3, PARC BUSNES, FFORDD PENAMSER, PORTHMADOG, GWYNEDD, LL49 9GB
Phone 01766 514249
Fax 01766 515118

www.pwll.org.uk/cil


I: Y Pwyllgor Iechyd, Lles, a Llywodraeth Leol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Oddi wrth: Canolfan Byw'n Annibynnol i Bobl Anabl, De Gwynedd.

30.11.09.

**Testun: Gwasanaethau Cadeiriau Olwyn yng Nghymru.**

Annwyl Aelodau'r Pwyllgor,

Diolch am y cyfle i gyfrannu tuag at yr astudiaeth hon.

Pwrpas CIL yw cynnal a hwyluso pobl anabl yng Ngwynedd wrth ddatblygu tuag at annibyniaeth a hyder, er mwyn iddynt allu gwneud dewision addas ynglŷn a'i bywydau. Mae gan CIL De Gwynedd dair adran:

- Hyfforddiant, Addysg, a Chwaraeon
- Gwasanaeth a Gwybodaeth
- Cyfleusterau, Cludiant, a Mynediad (ar gyfer pobl anabl).

Yng Ngwynedd mae ein aelodau'n byw ac yn gweithio, felly mae'r sylwadau yma'n datgan ei barn am wasanaethau yng Ngwynedd a Gogledd Cymru.

1. Mae nifer fawr o'r aelodau'n credu bod gormod o aros ag oedi rhwng gwneud cais am gadair olwyn a'r diwrnod pan mae'r gadair yn cyrraedd y cleient. Yn ddiweddar bu rhaid i un cleient aros am dros ddwy flynedd cyn cael cadair. Os rhaid aros fel hyn byddai'n ddefnyddiol cael cadair syml dros dro ar gyfer y rhai sydd yn aros.

2. Mae'r broses o ofyn, aros, a derbyn cadeiriau olwyn yn rhy gymhleth ac yn rhy gyfriniol. Er bod rhaid cymerid gofal i gael yr un iawn, nid yw cadair olwyn mor gymhleth ag y mae'r swyddogion yn ddweud. Mae tueddiad i or-gymhlethu'r broses a gwneud y peth yn gyfriniol.

3. Yn olaf, y teimlad sydd ymysg pobl anabl yma yw nad yw'r awdurdod sy'n rhoi cadeiriau olwyn yn ddigon hawdd ei cael ac i siarad gyda nhw. Dylent fod yn fwy "approachable" ar y cyfan, ac yn fwy agored i syniadau pobl anabl. Mewn llawer achos nid yw'r swyddogion wedi cymerid digon o sylw o syniadau ac anghenion y cleient. Mewn ffordd, mae'r swyddogion yn anwybyddu barn a hawliau pobl anabl. Mae pobl anabl yn alluog, aeddfed, a deallus, fel pawb arall, ac nid ydynt eisiau cael ei trin fel pobl heb lais a heb hawliau. Mewn un achos mae y cleient yn dal i ddefnyddio'r un gadair ers blynyddoedd, er ei fod wedi gofyn am un arall, ac nid yw'r swyddog wedi gwrando'n ofalus arno pan mae'n disgrifio siâp ei dy a'r anghenion sydd ganddo.

Er hyn, yr ydym yn ddiolchgar am y gwasanaeth sydd ar gael, gan obeithio fod ein sylwadau'n ddefnyddiol.

Yn gywir,

Hedd Thomas,
Swyddog Datblygu, CIL De Gwynedd.